

Strategaeth Datblygu Lleol LEADER 2014-2020

Dogfen Gryno
(Diwygiedig 2020)

CYNNAL Y CARDI:
CYFLWYNO'R RHAGLEN
LEADER YNG NGHEREDIGION



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council




I ddechrau, paratôdd Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi (GLLI) ddogfen Strategaeth Datblygu Leol (SDLL) yn dilyn ymgynghori â'r gymuned nôl yn 2015. Mae hon yn fersiwn wedi'i diweddarau sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau newidiol a ddatblygwyd ym mis Medi 2020, gyda ffocws penodol ar yr effaith o Covid-19 ar anghenion a heriau Ceredigion. Ar lawer ystyr, mae'r heriau yr oeddem eisoes yn eu hwynebu yn aros yr un fath ond mae rhai materion wedi'u dwysáu. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae effaith Covid wedi arwain at newid agweddau ac ymddygiadau, sydd bellach yn cynnig cyfleoedd newydd. Rydym hefyd nawr yn wynebu heriau a chyfleoedd eraill ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Yn ystod 2020, cynhaliodd Cyngor Sir Ceredigion ymgynghoriad sylweddol wrth ddatblygu Strategaeth Economaidd newydd ar gyfer y sir. Cyhoeddwyd y ddogfen 'Hwb Economi Ceredigion: Strategaeth ar gyfer Gweithredu (2020-2035)' ym mis Ebrill 2021. Roedd canfyddiadau'r broses ymgysylltu yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer llywio blaenoriaethau'r GGLL yn y dyfodol ochr yn ochr â dal y profiadau a'r hyn a ddysgwyd o Aelodau'r Grŵp.

Mae blaenoriaethau'r strategaeth yn canolbwyntio ar yr hyn y mae pobl leol yn credu sy'n bwysig ar gyfer datblygu eu hardal, beth yw'r heriau a'r cyfleoedd. Mae'r rhain yn ffurfio'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu posibl ar gyfer dosbarthu Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (CAEDG) i gefnogi gweithgaredd LEADER.

Rhaid i'r holl weithgaredd a gefnogir cyd-fynd â nodau'r SDLL yma a rhaid iddo ddefnyddio saith nodwedd allweddol LEADER:



Cyd-destun Ceredigion

Poblogaeth:

Yn ôl amcangyfrifon Poblogaeth Ganol y Flwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol diweddaraf, roedd poblogaeth Ceredigion ar gyfer 2018 yn 72,992. Yn ystod y cyfnod 2001 i 2018, mae'r boblogaeth wedi gostwng 3.2%, ond mae poblogaeth Cymru wedi cynyddu 7.8%.

Mae canolrif oed poblogaeth y sir wedi cynyddu o 42.9 yn 2011 i 45.1 yn 2018; mewn cymhariaeth, a Chymru ar y cyfan sydd wedi aros yn ei unfan yn 41.5. Mae poblogaeth Ceredigion yn heneiddio ac, yn 2018, amcangyfrifir bod 24.9% o'r boblogaeth yn 65 oed neu'n hŷn. Mae tueddiadau yn dangos bod y boblogaeth oedran gweithio (16-64) wedi gostwng 14% ers 2001, tra bod y boblogaeth 65+ wedi cynyddu yn sylweddol i 29.5%.

Mae myfyrwyr yn chwarae rhan fawr yn y Sir, o safbwynt addysgol ac economaidd. Mae gan Brifysgol Aberystwyth, er enghraifft, dros 8,000 o fyfyrwyr sy'n cyfrif am 11.2% o boblogaeth y Sir. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r niferoedd wedi dangos dirywiad.

Enillion:

Mae dadansoddiad o enillion yn darparu rhywfaint o dystiolaeth i ategu'r dybiaeth bod rhai o weithlu Ceredigion yn cymudo y tu allan i'r sir am gyflogaeth â chyflog uwch mewn siroedd cyfagos. Mae data o Arolwg Blynyddol diweddaraf Oriau ac Enillion 2019 yn dangos bod yr enillion blynyddol cyfartalog yn is yng Ngheredigion o'i gymharu â ledled Cymru, ac eithrio Powys, hefyd yn is na gweddill Canolbarth a De-orllewin Cymru. Yr enillion blynyddol cyfartalog ar gyfer y rhai sy'n byw yng Ngheredigion yw £24,126, dros £2,000 yn llai na'r £26,267 ledled Cymru.

Iaith Gymraeg:

Mae Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 47.3% o boblogaeth Ceredigion yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, ategir y ffigurau hyn trwy'r Arolwg Poblogaeth Flynyddol, ac mae'r canlyniadau diweddaraf yn darparu tystiolaeth gref i awgrymu bod y Sir yn parhau i fod ym mastiwn o'r iaith Gymraeg. Dros y chwe blynedd diwethaf, mae cyfran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu'n gyson bob blwyddyn, gan godi o 52.7% yn 2014 i bron i 60% erbyn 2019.

Mae cynnydd wedi'i gwneud yn ystod y rhaglen flaenorol a'r rhaglen gyfredol ar ddatblygu dull llwyddiannus o ymgysylltu â chymunedau i gefnogi cymunedau gwledig Ceredigion. Mae wedi bod yn gyfrwng i ddefnyddio'r math hwn o gronfa i hyrwyddo entrepreneuriaeth, arloesi, hyrwyddo diwylliant a threftadaeth gyfoethog yr ardal ac mae wedi hyrwyddo cymunedau gweithredol a grymus, trwy weithio gyda nhw i chwilio am atebion i faterion lleol.


Mae'r profiad o weithredu gweithgareddau LEADER yn y rhaglen hon wedi dylanwadu ar rai o'r dulliau ond ar ben hynny mae'r blaenoriaethau hyn bellach yn nodi cyfleoedd pellach ar gyfer arloesi lleol, gweithio mewn partneriaeth o fewn ardaloedd cyrchfan a mwy o rwydwaith a chydweithrediad rhwng GLLI's.

Dadansoddiad SWOT Ceredigion

Cryfderau	Gwendidau
- Amgylchedd o ansawdd uchel - Cyfalaf cymdeithasol cryf. - Cymunedau a rhwydweithiau hydwyth. - Hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol. - Potensial uchel o ansawdd bywyd.. - Cynnyrch twristiaeth sefydledig. - Gweithlu teyrngar, cymwys / medrus a hyblyg da gyda chostau llafur isel. - Sector addysg uwch / ymchwil sylweddol. - Poblogaeth sefydledig.	- Ymylol i'r prif ganolfannau economaidd gyda TGCh a Thrafnidiaeth isadeiledd yn aml yn annigonol. - Costau uwch i fasnachu, darparu gwasanaethau ac i fyw. - Prinder llafur a sgiliau. - Cynhyrchedd ac incwm isel gyda% uchel o weithwyr y sector cyhoeddus. - Diffyg gallu cymunedol. - Delwedd a chanfyddiad. - Dwysedd poblogaeth isel. - Yn agored i ddigwyddiadau pandemig ac argyfwng.
Cyfleoedd	Bygythiadau
- Gwella mynediad at ac ymelwad o TG - Cyfleoedd ar ôl covid. - Tyfu gallu cymunedol ar ôl Covid i archwilio cyfleoedd ar gyfer creu cymunedau mwy rhagweithiol hydwyth. - Ymagwedd rheoli cyrchfan tuag at dwristiaeth a datblygu ymdeimlad o le. - Optimeiddio rheolaeth tir yn ardaloedd yr ucheldir i gynyddu incwm. - Newid parhaus yn y boblogaeth trwy fudo, gydag allfudo net o bobl ifanc a mewnfudo net pan fyddant yn oedolion canol. - Cryfhau hunaniaeth yr ardal gan ddefnyddio asedau diwylliannol yr ardal. - Partneriaeth drawsffiniol yn gweithio i ddatblygu dulliau cydweithredol a fydd o fudd i'r economi wledig. - Cynyddu cyfleoedd ar gyfer datblygu'r gweithlu gan gynnwys hyfforddiant staff, caffael sgiliau, prentisiaethau, a gwell trafndiaeth i gael mynediad i'r gweithle a hyfforddiant. - Defnyddio amgylchedd naturiol a thirwedd yr ardal. - Hwyluso economi sy'n seiliedig ar wybodaeth yn sylweddol i gefnogi cyfleoedd newydd ac arloesol a datblygu a chryfhau cadwyni cyflenwi byr i sicrhau'r budd gorau posibl i fusnesau.	- Newidiadau'r UE / ad-drefnu'r Llywodraeth, canoli, sy'n fygythiad i gymunedau gwledig. - Newid demograffig. Ymfudiad allan o bobl ifanc a chymwys gan arwain at boblogaeth oedran gweithio yn dirywio. Y cynnydd a ragwelir yn y grwpiau poblogaeth pobl hŷn dros y degawd nesaf gan arwain at waharddiad cymdeithasol ac erydiad cyfalaf cymdeithasol. - Effaith barhaus pandemig Covid. - Newid yn yr hinsawdd - Y tebygolrwydd mwyaf yn y dyfodol o ddigwyddiadau tywydd eithafol fel llifogydd. - Dirywiad mewn nifer o fusnesau. - Pwysau ar wasanaethau cyhoeddus oherwydd mesurau i leihau dyled gyhoeddus, megis llai o wariant ar les a lleihau cyllidebau eraill y sector cyhoeddus. - Fforddiadwyedd byw oherwydd costau llafur isel a chodiadau tymor hir mewn costau cludo a thanwydd gwresogi. - Problemau gyda hygyrchedd i ystod o wasanaethau. - Lleoliad Ceredigion ar amgant Cymru a'r DU a chanolfannau'r UE.

Nodau ac Amcanion Strategol

Amlygir isod y perthnasoedd strategol allweddol ar gyfer yr SDLL yng Ngheredigion. Mae'r siart canlynol yn dangos y perthnasoedd:



Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cyhoeddi strategaeth newydd yn ffurfiol sy'n ystyried dyfodol economaidd Ceredigion dros y pymtheng mlynedd nesaf. Mae ymgysylltu ac ymgynghori manwl â phobl ifanc, busnesau a thrigolion wedi digwydd, gan arwain at nodi pedwar maes blaenoriaeth lle cymerir camau i wneud gwahaniaeth. Mae'r rhain yn ymwneud â:

- Pobl** - ysbrydoli pobl, datblygu sgiliau, iechyd a lles
- Lle** - hyrwyddo Ceredigion fel lle i fyw, gweithio ac ymweld a
- Menter** - cynorthwyo busnesau i gychwyn a thyfu
- Cysylltedd** - cysylltu busnesau a chymunedau

Mae'n amlwg o ganolbwynt y pedwar maes blaenoriaeth hyn fod pob un yn berthnasol i'r rhaglen LEADER ac mae'r SDLL wedi'i ddiwygio i gyflawni yn erbyn pob un o'r meysydd thematig a nodwyd. Mae'r cydweddiad cryf rhwng blaenoriaethau SDLL a'r Strategaeth Economaidd yn dangos bod yna lawer iawn o gyfatebiaeth.

Gellir gweld y ddogfen strategaeth wrth fynd i: <https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/strategaethau-cynllunio-a-pholisiau/strategaeth-economaidd2020-35/>

Mae'r Strategaeth SDLL, fel y'i diwygiwyd yn 2020, yn nodi'r blaenoriaethau a ganlyn:

Thema 1: Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol	
I wneud Ceredigion yn lle unigryw lle mae pobl eisiau byw, gweithio ac ymweld.	- I cefnogi a chynnal economi trefi marchnad Ceredigion. - Cefnogi a chynyddu effaith sectorau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth fel ysgogwyr economaidd. - Cryfhau hunaniaeth yr ardal gan ddefnyddio asedau diwylliannol yr ardal. - I hyrwyddo a chefnogi gweithgareddau gan gynnwys gweithgareddau cymdeithasol ac economaidd a fydd yn cryfhau sefyllfa'r iaith Gymraeg
Thema 2: Hwyluso datblygu cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr	
Creu diwylliant sy'n canolbwyntio ar entrepreneuriaeth, gan hyrwyddo Ceredigion fel lle cadarnhaol i fyw, astudio, gweithio a thyfu.	- Annog sgiliau arwain i dyfu. - Uwchsgilio a datblygu cyfleoedd newydd ar gyfer gweithlu cyflogaeth Ceredigion. - Cefnogi mentrau sy'n cynorthwyo unigolion i gael mynediad at waith, hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli a gwasanaethau eraill. - Creu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg trwy dwf economaidd.
Cryfhau / Manteisio ar gyfleoedd allweddol i sectorau allweddol Ceredigion, yn enwedig y sector bwyd a diod	- Cryfhau cadwyni cyflenwi lleol yng Ngheredigion. - I gael mynediad at Wybodaeth sy'n arwain y farchnad a fydd yn caniatáu i fusnesau Ceredigion gael gafael ar ddata er mwyn cefnogi twf yn y sector preifat. - Ymchwilio i'r cyfleoedd ar gyfer y model economi gylchol yng Ngheredigion. - Ychwanegu gwerth at gynhyrchion lleol.
Thema 3: Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol	
Adeiladu gallu a hydwythdedd yng nghymunedau gwledig Ceredigion.	- Cefnogi a datblygu gallu a hydwythdedd yng nghymunedau gwledig Ceredigion. - Cefnogi arloesi cymdeithasol sy'n helpu i ddod o hyd i atebion i heriau cymdeithasol. - Treialu gweithgareddau sy'n gwella llesiant unigolion a chymunedau
Thema 4: Ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol	
Trosglwyddo i ddyfodol carbon isel.	- Hwyluso'r gwaith cyn datblygu ar gyfer mentrau ynni adnewyddadwy lleol - Datblygu cyfleoedd ar gyfer mentrau carbon isel cynaliadwy.
Thema 5: Manteisio ar dechnoleg ddigidol	
Gwella cysylltedd digidol a lefelau ecsbloetio digidol ar draws Ceredigion.	- Gwella'r defnydd o dechnoleg ddigidol gan unigolion, busnesau a chymunedau i hyrwyddo twf economaidd gwledig cynaliadwy. - Sicrhau cynhwysiant digidol i bobl mewn cymunedau gwledig frwydro yn erbyn allgáu cymdeithasol a darparu gwell mynediad at wasanaethau. - Manteisio ar y cyfleoedd ar gyfer masnachu digidol gan fusnesau a chynyddu cynhyrchiant, amrywiaeth ac effeithlonrwydd busnesau mewn ardaloedd gwledig

Monitro a Gwerthuso

Mae'r GGLL yn ystyried y bydd yr allbynnau - canlyniadau - effeithiau yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cyflawni ei weledigaeth ar draws Ceredigion i gyd. Canolbwyntiodd trafodaethau GLL ar feithrin ac adeiladu ar agwedd "gallu gwneud" gan gymunedau, sefydliadau, busnesau ac unigolion yn y sir wledig hon. Bydd gweithgareddau LEADER yng Ngheredigion yn canolbwyntio ar "beth sy'n bwysig yn lleol," gan gymryd agwedd arloesol ac uchelgeisiol ar lawr gwlad tuag at unrhyw ddatblygiadau. Felly, mae'n bwysig bod y rhaglen LEADER yn cydnabod ac yn cofnodi'r 'siwrnai' neu'r broses a gymerir gan yr unigolion, busnesau a chymunedau hynny yn ystod amser yn ogystal â'r allbynnau a'r canlyniadau mwy concrit. Felly bydd y data ar "Sut" yn ogystal â "Beth" yn cael ei fonitro a'i ddal i ddangos cyflawniadau rhaglen LEADER.

Nodir yr allbynnau fel y ganlyn:

Enw Mesurydd	Targed Arfaethedig
Gweithredu	
Nifer yr astudiaethau dichonoldeb	4
Nifer y rhwydweithiau a sefydlwyd	3
Nifer y swyddi a ddiogelir	2
Nifer y gweithgareddau peilot	25
Nifer y gweithgareddau hyrwyddo a / neu farchnata a wnaed i hyrwyddo'r SDLL a / neu ei brosiectau	183
Nifer o rhanddeiliaid ymgysylltwyd	1292
Nifer y cyfranogwyr a gefnogwyd	2166
Nifer y swyddi a grëwyd	1.5
Nifer o Hybiau Cymunedol	7
Cydweithredu	
Nifer y Rhwydweithiau a sefydlwyd	2
Nifer y camau lledaenu gwybodaeth	19
Nifer o rhanddeiliaid ymgysylltwyd	114
Nifer y cyfranogwyr a gefnogwyd	98

Mae'r GGLL hefyd wedi nodi nifer o allbynnau ychwanegol i'w coladu yn ystod cyfnod y rhaglen, sy'n cynnwys:

Nifer y cymunedau yr ymgysylltwyd â hwy
Nifer y grwpiau yr ymgysylltwyd â hwy
Nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan
Nifer y menywod sy'n cymryd rhan
Nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n cymryd rhan
Nifer yr henoed yn cymryd rhan
Nifer yr unigolion ag anableddau sy'n cymryd rhan
Nifer y prosiectau sydd wedi'u hanelu at wella'r amgylchedd / cynaliadwyedd
Nifer yr ymarferion ymgynghori
Nifer y grwpiau clwstwr / rhwydweithiau anffurfiol

Bydd dull y GLLI o **werthuso** yn strategol, gan sefydlu strategaeth ar gyfer casglu tystiolaeth, gan osod y pwyntiau canol tymor a therfynol ar gyfer gwerthuso allanol ffurfiol. Mae'r broses o werthuso'r cynllun wedi hen gychwyn, ac mae adroddiad terfynol i fod i ddod ar ddiwedd cyfnod y rhaglen.

Fel rhan o werthuso etifeddiaeth cynllun LEADER Cynnal y Cardi dros ddau gyfnod y rhaglen ddiwethaf, mae gwerthusiad yn archwilio effaith a llwyddiant Cynnal y Cardi yn cael ei wneud.

Am wybodaeth bellach i ymwneud â gwerthuso ewch i:

<https://www.cynnalycardi.org.uk/gwerthuso/>